# Cofnodion
# CYNGOR CYMUNED PISTYLL

Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **Nos Fawrth 13eg o Hydref, 2020** |
| **AMSER** | **7:00y.h** |
| **LLEOLIAD** | **Cynhaliwyd y cyfarfod drwy Zoom ar lein** |

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **PRESENOLDEB AC YMDDIHEURIADAU** |
| **1.1**<br><br><br>**1.2** | | **Presennol -** Gwilym Williams **(GW)**, Griffith Jones **(GO),** Cyng. Aled Jones **(AJ).** Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, Dylan Wyn Jones **(DWJ)**, Sgt. Meurig Jones **(SMJ),** Mair Saunders **(MJ).**<br><br>**Ymddiheuriadau -** Sara Williams **(SW),** Ynyr Ellis **(YE)**, William Jones **(WJ),** Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)**, John Owen **(JO).** |
| **2.** | | **HYSBYSIADAU'R CADEIRYDD** |
| | | Gan fod y Cadeirydd a’r Is-gadeirydd wedi ymestyn eu hymddiheuriadau, cytunodd Gwilym Williams gadeirio am y noson. Diolchodd i bawb am fynychu’r cyfarfod gyda diolch arbennig i Dylan Wynn Jones a Sgt. Meurig Jones am gytuno i ymuno mewn trafodaeth at bwynt 6, a hefyd Mair Saunders am gytuno ymuno ar drafodaeth pwynt 6 a 7. |
| **3.** | | **DATGAN DIDDORDEB** |
| | | Dim |
| **4.** | | **DIWEDDARIADAU ASEDAU** |
| | | Adroddnod GJ ei fod wedi cyflawni ei addewid i lanhau'r gysgodfa bws. Diolchodd pawb iddo. |
| **5.** | | **COFNODION CYFARFOD MEDI, 2020** |
| ***5.1*** | | Cynigiodd LJ gywirdeb i bwynt 6 o’r cofnodion sef - Nid oedd YE wedi lleisio barn ar y penderfyniad.<br><br>**CYFLWYNO A MABWYSIADU**<br><br>Cynigiodd GW ac eiliodd GJ gywirdeb i weddill Cofnodion Medi 2020 |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad....................................................*

| | | |
|---|---|---|
| ***5.2*** | | **<u>MATERION YN CODI</u>** |
| | ***5.2.1*** | <u>Cais am wybodaeth gan yr Aelodau i ymwneud safle Plas Pistyll</u><br><br>Gan for y Clerc wedi methu a chysylltu ag Adran Dreth y Cyngor Sir i ddarganfod faint o dai sydd yn talu treth i'r Cyngor a faint sy'n talu treth busnes ar safle Plas Pistyll, gofynnodd i'r Aelod Lleol am gymorth.<br><br>Esboniodd AJ ei fod wedi cysylltu yn gofyn:<br><br>• Faint o dai sydd yn bydoli ar safle Nature's Point sef yr hen Blas Pistyll?<br>• Faint sydd wedi trosi i dalu trethi busnes yn hytrach na threth y Cyngor?<br>• Faint o unedau sy'n talu treth Cyngor ar raddfa sylfaenol?<br>• Faint o unedau sun talu ar raddfa 150%?<br><br>Cafwyd yr ymateb canlynol gan E. Bleddyn Jones, Rheolwr Adran Drethi'r Cyngor Sir yn esbonio -<br><br>Nid yw'r 'Valuation Office' o'r HMRC wedi darfod asesu safle Bythynnod Plas Pistyll, ac felly nid oes unrhyw dreth yn cael ei dalu oddi yno yn bresennol.<br>Pan fydd yr asesiad wedi ei gwblhau gan y 'Valuation Office' bydd y tai yn dod ar y rhestr wedi eu dyddio ers eu cwblhau/defnyddio.<br>Esboniodd ymhellach fod y Rheolwr Trethi yn dwyn pwysau ar y Valuation Office i gwblhau'r gwaith ac wedi addo dod yn ôl at wedyn, ond mae yn rhybuddio y gall fod yn rhai misoedd, gan fod y Valuation Office ar ei hol hi yn ofnadwy. |
| | ***5.2.2*** | <u>Y Fan Bost</u><br><br>Esboniodd LJ ei bod wedi cael sgwrs gyda Swyddog y Fan Bost a'i bod wedi rhoi gwybod iddi ei bod wedi bob yn sâl am rhai wythnosau, cynigiodd efallai fod hyn yn esboniad i ddirywiad y gwasanaeth. |
| **6.** | | **GÔR YRRU YN YR ARDAL** |
| | | Esboniodd y Clerc bod y gwahoddiad wedi ei ymestyn i DWJ, Sgt. MJ a MS heno yn dilyn cwynion pellach gan y trigolion a'r aelodau yn ogystal am gôr yrru I Nant Gwrtheyrn o'r groesffordd yn Llithfaen.<br><br>Aeth ymlaen i esbonio bod archwiliad wedi ei wneud ar y lon yn nol yn fis Chwefror gan Gyngor Sir Gwynedd ond gan fod y Cyngor o'r farn nad oedd y gôr yrru'n cyrraedd canradd byddai'r heddlu'n erlyn arno, nid oedd unrhyw astudiaeth bellach wedi ei wneud.<br><br>Gofynnodd SP ble roedd yr astudiaeth wedi ei wneud ym mis Chwefror ac ymatebodd DWJ ei fod wedi ei wneud uwchben Fron Hyfryd ar yr allt.<br><br>Ychwanegodd SP bod dwy broblem yn Llithfaen sef gôr yrru o Nefyn i Gaernarfon a'r gôr yrru i Nant Gwrtheyrn o'r groesffordd. Adroddodd ganlyniadau bras yr archwiliad yn Chwefror sef rhai yn gyrru 56 m.y.a. a 32% gafodd eu mesur yn gwneud uwchben 30 milltir yr awr a chynigiodd y gwelliannau canlynol i'r lon: |

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad.......................................................*

| | | |
|---|---|---|
| | | • Ychwanegu arwyddion cyflymder 30 o'r groes i fynnu am Nant Gwrtheyrn<br>• Ychwanegu arwydd croesffordd<br>• Ychwanegu arwydd 'No through road'<br>• Arwydd STOP yn y groes yn lle GIVE WAY<br><br>Mewn ymateb i'r cwyn am y gor yrru i Gaernarfon o Nefyn esboniodd Sgt. MJ bod GO SAFE wedi bod ar y safle saith gwaith ers mis Ionawr gyda chanlyniad o 20 cerbyd yn cael ei erlyn. Roedd y rhagdysgniad yn seiliedig ar y cyflymderau canlynol:<br>35 m.y.a. 9 car - 36 m.y.a. 5 car - 37 m.y.a. 3 car - 38 m.y.a. 2 car - 41 m.y.a. 1 car.<br><br>Nid oedd ganddo wybodaeth am yr amseroedd pryd oedd GO SAFE wedi bod ar y safle.<br><br>Cytunodd yr aelodau bod hyn yn newyddion da iawn gan fod presenoldeb GO SAFE yn amlwg wedi bod yn effeithiol ac wedi helpu gostwng troseddi.<br>Adroddodd SP bod y mwyafrif o'r gor yrru yn digwydd rhwng 7.30 a 9 yn y bore a'r mwyafrif o'r cwynion am enethod ifanc ar y ffordd i'r gwaith, ategodd MS y wybodaeth ac aeth ymlaen i esbonio ei bod wedi gyrru darbwylliad ymlaen i staff y Nant.<br><br>Ychwanegodd MS bod problemau mawr gyda pharcio yn rhy agos i'r gyffordd yn y groesffordd hefyd sydd yn creu<br>pryderon yn ganol y pentref.<br><br>Cyfrannodd DWJ ymateb technegol ac esboniodd nad oedd gan Gyngor Gwynedd yr hawl yn dilyn rheol genedlaethol i osod arwyddion ailadrodd cyflymder ynghanol y pentref a buasai gwneud hyn yn tanseilio gorfodaeth gan yr heddlu. Esboniodd fod parth 30 mewn tri chyfeiriad i Lithfaen sef o Lanaelhaearn, Nefyn a Llwyndyrys a bod arwyddion ar ddechrau'r rhain.<br><br>Cytunodd buasai yn rhesymol i Gyngor Gwynedd edrych os bydd modd lleoli arwydd Dim Ffordd Drwodd mewn man priodol ac mewn perthynas i arwydd Stop yn lle Give Way cytunodd bydd modd gwneud asesiad.<br><br>Mewn ymateb i'r asesiad cyflymder ar y lon i Nant esboniodd mai ar yr 85fed canradd bydd yr heddlu yn cosbi sef 10% +2 ar gyflymder o 30 = 35mya felly nid yw'r asesiad wedi cyflwyno pryder. Esboniodd fod y Cyngor Sir yn gorfod blaenoriaethu ar dystiolaeth ac anffodus nid oedd modd i'r Cyngor fuddsoddi mewn gosod twmpathau ar dystiolaeth yr asesiad.<br><br>Wedi derbyn y wybodaeth gan Sgt MJ a DWJ gofynnodd LJ beth arall fydd modd i'r Cyngor wneud i sicrhau diogelwch plant yn y gymuned, awgrymodd Sgt. MJ bydd posib i'r Cyngor Cymuned gysidro sefydlu Grŵp Gwylio Cyflymder Cymunedol gan orchwylio gyda chamera cyflymder eu hunain esboniodd buasai hyn yn gallu bod yn opsiwn effeithiol iawn i erlid gor yrru gan drigolion lleol. Cytunodd i wneud ymholiadau os bydd modd menthyg camera gan GO SAFE.<br><br>Diolchodd GJ am gyd weithrediad y Cyngor Sir a'r heddlu ac ychwanegodd bod paent wedi gwisgo yn waelod y lon o Lanaelhaearn am Bentre' Uchaf, ychwanegodd bod dim arwydd STOP yno chwaith - cytunodd DWJ adrodd i'r Cyngor Sir. |
| **7.** | | **CEISIADAU CYNLLUNIO** |
| | | Dim |

*Llofnodwyd gan........................................................................................Dyddiad.....................................................*

| 8. | | GWERSYLLA AC ARWYDD YN Y MAES PARCIO |
|---|---|---|
| | | Esboniodd y Clerc ei bod gwneud cyswllt a Rheolwraig adran Gorfodaeth Cyngor Gwynedd ond yn anffodus wedi cael cadarnhad nad oedd gan Gyngor Gwynedd bwerau cyfreithiol i gynorthwyo’r Cyngor Cymuned ar y mater. Esboniodd fod y Cyngor Sir mewn trafodaethau gyda’r Llywodraeth I weld a fydd modd ychwanegu pwerau i gynnwys problemau fel hyn ar dir comin yn y dyfodol gan fod gwersylla yn cynyddu ac yn broblem enfawr mewn ardaloedd eraill hefyd.<br><br>Ychwanegodd ei bod wedi ceisio cysylltu â Chlerc Abererch ond wedi derbyn cymorth a gwybodaeth gan yr Aelod Lleol i Abererch. Aeth ymlaen i esbonio wedi iddi dderbyn gwybodaeth bellach am<br><br>gysylltiadau’r apiau cymdeithasol roedd wedi cysylltu â gosod llythyr ar eu gwefan yn erlid pawb o wersylla dros nos ar y safle a hefyd sbwrela. Nid oedd wedi derbyn ymateb ffafriol gan Weinyddwyr yr ap wrth wneud hyn.<br><br>Holodd SP a nodwyd y cofnodion blaenorol yn gywir ar y pwynt hwn gan ychwanegu ei bod hi a LJ wedi cytuno i ysgrifennu llythyr at awdurdodau priodol yn gofyn am arweiniad a chymorth wrth ddatrys y mater.<br><br>Adroddodd y Clerc ei bod wedi crynhoi popeth i'w gwybodaeth yn gywir ond pan na chafodd ohebiaeth ganddi i’w yrru ymlaen ceisiodd ddarganfod unrhyw wybodaeth bellach erbyn y cyfarfod er mwyn eu hwyluso.<br><br>Cytunodd yr aelodau dylai’r pwysleisied fod ar wersylla yn hytrach nac ysbwriel heno.<br>Esboniodd MS ei bod hithau hefyd wedi bod mewn cyswllt a’r heddlu hefyd Swyddog o’r Cyngor Sir ers y flwyddyn ddiwethaf ar y mater.<br><br>Awgrymodd AJ chwilio am farn gyfreithiol gan Un Llais Cymru ac unrhyw arweiniad a chymorth ar y camau cywir i ddatrys y mater.<br><br>Esboniodd y Clerc ei bod wedi derbyn gwybodaeth ganddynt yn barod yn argymell cysylltu ag Adran Gyfreithiol y Cyngor Sir i ofyn a oes ganddynt unrhyw brofiad o wersylloedd anghyfreithlon a sut gall y Cyngor fynd ati i berswadio'r unigolyn i adael.<br><br>Adroddodd SP wybodaeth berthnasol y derbyniwyd yn atodiad Un Llais sef NALC Nodiadau Pwnc Cyfreithiol ar Amgryptio Anghyfreithlon.<br><br>Gofynnwyd i’r Clerc holi os bydd yswiriant y Cyngor yn cwmpasu’r mater hefyd cysylltu yn nol gydag Un Llais Cymru yn gofyn oes posib defnyddio adnoddau, yn cynnwys adnoddau cyfreithiol, Un Llais Cymru, gan ein bod yn aelodau, i edrych i weld beth yw’r camau sydd rhaid eu cymryd i atal rhywun sydd yn byw, heb ganiatâd, mewn fan ar dir comin sydd wedi ei gofrestru yn enw’r Cyngor dan Ddeddf Tiroedd Comin 1965.<br><br>Cytunwyd bydd materion eraill yn cryfhau’r achos os bydd yn dod i’r llys.<br><br>Cytunodd yr aelodau efallai drefnu cyfarfod neilltuol i drafod y mater ymhellach wedi derbyn ymateb gan Un Llais Cymru. |
| 9. | | SBWRIEL YN Y MAES PARCIO A THOP Y NANT |
| | | Gweler pwynt 8 |

*Llofnodwyd gan.......................................................................................Dyddiad....................................................*

| | | |
|---|---|---|
| **10.** | | **BINIAU BAW CI** |
| | | Cadarnhaodd y Clerc fod y Cyngor wedi cael caniatâd i osod tri bin yn Llithfaen hefyd mae maint 50ltr yw'r maint poblogaidd gan gymunedau eraill, ond nid oedd wedi derbyn ymateb mwy pendant nac pris oddeutu £3.50 am wagio pob bin maint 50ltr yn wythnosol. Cytunodd yr aelodau iddi fynd yn ei blaen i archebu 2 fin yn hytrach na'r tri y cytunwyd yn flaenorol gan fod problemau hefo lleoliad un. |
| **11.** | | **Y GANOLFAN** |
| | | Oherwydd amser henno penderfynwyd gadael y mater tan gyfarfod Tachwedd. |
| **12.** | | **MATERION LLEOL** |
| | | Biniau'r groes heb eu gwagio er tair wythnos.<br>Tir Bach Pistyll angen tocio ei glawdd<br>Cornel Llithfaen Fawr gyferbyn a mynediad Carnguwch bach - y gwrychoedd yn beryg angen tocio.<br>Y Clerc y adrodd y problemau i'r Cyngor Sir yn gofyn iddynt lythyru a'r perchnogion. |
| **13.** | | **GOHEBIAETH A GWYBODAETH** |
| ***13.1*** | | **Gwahoddiad i ymuno a bwrdd rheoli O Ddrws I Ddrws**<br>Y Clerc wedi rhannu'r wybodaeth o flaen llaw gyda'r aelodau, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| ***13.2*** | | **Diweddariad am y coronafeirws gan CLlLC**<br>Y Clerc wedi rhannu'r wybodaeth o flaen llaw gyda'r aelodau, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| ***13.3*** | | **Diweddariad Llywodraeth Cymru - Cofio 2020**<br>Y Clerc wedi rhannu'r wybodaeth o flaen llaw a gydir aelodau, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| ***13.4*** | | **AP COVID-19**<br>Y Clerc wedi rhannu'r wybodaeth o flaen llaw gyda'r aelodau, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| ***13.5*** | | **Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth**<br>Y Clerc wedi rhannu'r wybodaeth o flaen llaw gyda'r aelodau, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| ***13.6*** | | **Bwletin Newyddion Un Llais Cymru**<br>Y Clerc wedi rhannu'r wybodaeth o flaen llaw gyda'r aelodau, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| ***13.7*** | | **CAIS AM GEFNOGAETH I BENDERFYNIAD CYNGOR TREF NEFYN**<br>Y Clerc wedi rhannu'r wybodaeth o flaen llaw gyda'r aelodau, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau. |
| ***13.8*** | | **Ymateb Un Llais i'r broblem gyda gwersylla**<br>Gweler trafodaeth pwynt 8. |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiad....................................................*

| 14. | | CYLLID |
|---|---|---|
| *14.1* | | <u>**CYFRIFON 2020/21**</u><br><br>Adolygwyd y Llyfr arian, Cysoniad banc, a Rhagamcanion 2020/21, cynigiodd GJ eu cywirdeb, eiliodd LJ a chytunwyd pawb. |
| *14.2* | | <u>**TRAFODION Y CYFRIFON BANC**</u><br><br><u>Cyfrif Cyfredol</u> - *Balans a ddygwyd ymlaen - £10,143.42*<br><br>Taliadau - £160.00 - Cyflog Clerc<br>£14.00 - Treuliau Clerc<br>£180.00 – A.Hughes, Jones, Dyson<br>£35.00 - ICO (DD)<br>*Balans a gariwyd ymlaen - £9,754.42*<br><br><u>Cyfrif Cadw</u> **-** *Balans a ddygwyd a gariwyd ymlaen - £2,660.59* |
| *14.3* | | <u>**TALIADAU A GYMERADWYWYD YN Y CYFARFOD**</u><br><br>£76.80 - Argraffdy Eryri<br>£160.00 – Cyflog y Clerc<br>£28.75 - Treuliau'r Clerc |
| **15.** | | **TREFNIADAU A DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF** |
| | | Penderfynwyd bydd rhaid trefnu Cyfarfod anffurfiol i drafod ymateb Unllais i gais am wybodaeth gyfreithiol gan ei fod yn destun rhy hir i'w drafod mewn Cyfarfod misol. Y Clerc i drefnu. |

*Llofnodwyd gan..........................................................................................Dyddiad...................................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E-bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*